





# Rhaglen Gwifoddoli (De) Ionawr - Mawrth 2026



**Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
Tirwedd Cenedlaethol

**Clwydian Range and Dee Valley**
National Landscape

Mewn partneriaeth efo

**Cyfoeth Naturiol** Cymru
**Natural Resources** Wales

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

# Llwyddiannau llynedd

## CLODDIO DINAS BRÂN

1

Y llynedd, cyfnewidiodd tîm Ceidwad Dyffryn Dyfrdwy lifiau bwa a thociau am dryweli a bwcedi, gan ymuno ag archaeolegwyr o Heneb a Cadw am bythefnos o gloddio yng Nghastell Dinas Brân. Amseroedd cyffrous!
Agorwyd y ffos gyntaf yn y porthdy canoloesol, wrth ymyl y cloddio o 2021, tra bod yr ail yn archwilio rhagfur Oes yr Haearn, datblygiad arbennig o gyffrous gan nad oedd yr adran hon erioed wedi'i chloddio o'r blaen.
Er na ddaethom o hyd i aur, na'r Greal Sanctaidd, roedd y darganfyddiadau'n ddiddorol. Datgelwyd mwy o grochenwaith canoloesol wrth y rhagfur nag yn y castell ei hun, gan awgrymu y gallai deunydd fod wedi'i dywallt yno. Daeth darnau neolithig hŷn i'r amlwg hefyd, ond y prif nod oedd casglu samplau pridd a allai helpu i gadarnhau pryd y codwyd y rhagfuriau - bydd yn rhaid i ni aros i weld!
Diolch yn fawr iawn i bawb a ymunodd - roedd yn wych treulio amser ar y bryn gyda chymaint o wirfoddolwyr ymroddedig.

## GARDD GYMUNEDOL CORWEN

2

Blwyddyn Newydd, Chi Newydd!
Beth am ddechrau'r flwyddyn drwy gymryd rhan yng Ngardd Gymunedol Corwen? Bob dydd Mercher, mae gwirfoddolwyr yn dod ynghyd i helpu i reoli a chynnal y lle arbennig hwn. Gyda'r gwanwyn ar y gorwel, bydd hi'n bryd gofalu am y gwelyau, hau hadau, a pharatoi'r ardd ar gyfer y tymor newydd.
Mae croeso i bawb, beth bynnag fo'ch cefndir garddio. Felly beth am alw heibio am sgwrs, paned, sleisen o gacen a'r cyfle i ddysgu ychydig o awgrymiadau garddio - neu rannu eich rhai eich hun!
Dewch draw ac ymunwch â ni, byddem wrth ein bodd yn eich gweld chi yno!

## CEIDWAID NEWYDD YN YMUNO Â'R TÎM

3

Rydym wrth ein bodd yn croesawu dau Geidwaid newydd i dîm Dyffryn Dyfrdwy:-
Ymunodd Tom â thîm Dyffryn Dyfrdwy ym mis Awst. Cyn ymuno â ni, bu Tom yn gweithio fel Swyddog Prosiect Cadwraeth gyda Rheoli Tir Ecolegol a, chyn hynny, gwasanaethodd saith mlynedd yn y fyddin. Mae'n dod â chyfoeth o brofiad a brwdfrydedd i'r rôl ac mae'n edrych ymlaen at gwrdd â chi a gweithio ochr yn ochr â llawer ohonoch yn y misoedd nesaf.
Ymunodd Geraint â thîm Dyffryn Dyfrdwy ddechrau mis Tachwedd. Cyn ymuno, bu Geraint yn gweithio i Wild Ground gyda Groundwork Gogledd Cymru fel Swyddog Gwarchodfeydd yn gofalu am warchodfeydd natur ledled Gogledd Ddwyrain Cymru, gan warchod cynefinoedd ar gyfer Madfallod Dŵr Cribog. Ei gefndir yn bennaf yw cadwraeth natur a gweithio gyda gwirfoddolwyr. Mae Geraint hefyd yn gwirfoddoli gyda Chefn Gwlad Cilgwri ac fel gwiriwr coed hynafol gyda'r Ymddiriedolaeth Coedlannau. Mae hefyd wrth ei fodd yn plygu gwrychoedd! Mae Geraint yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r gwirfoddolwyr yn Nyffryn Dyfrdwy i wella'r ardal hardd yr ydym yn byw ynddi.

# Ionawr

**Pob prynhawn Dydd Mercher**
*Sesiwn Garddio Ysgafn*
Ymunwch â'r Ceidwaid am ychydig o arddio ysgafn, sgwrs a phaned bob prynhawn Mercher yng Ngardd Gymunedol Corwen.
Cwrdd yng Ngardd Gymunedol Corwen, Corwen.
Cod post: **LL21 0DN**, What3Words: **///bywydeg.darfodiad.diolchaf**

**Dydd Iau 8fed Ionawr**
*Gwarchodfa Natur Wenffrwd - Cynnal a chadw llwybrau*
Ymunwch â ni yng Ngwarchodfa Natur Wenffrwd am ddiwrnod o gynnal a chadw llwybrau, gan gynnwys torri llystyfiant yn ôl a datgelu'r ymylon pren ar hyd y llwybrau. Mae'n gyfle gwych i helpu i gadw'r warchodfa'n hygyrch ac yn edrych ar ei gorau!
Cyfarfod ym Maes Parcio Gwarchodfa Natur Wenffrwd
Cod post: **LL20 7UH**, What3Words: **///chwifiais.dawnsiau.cariadol**

**Dydd Iau 15fed Ionawr**
*Dol Llangar - Plygu gwrychoedd*
Cyfle gwych i ddysgu neu adnewyddu sgil cefn gwlad traddodiadol, dan arweiniad y Ceidwaid. Dewch draw i gwrdd â phobl o'r un anian a chael profiad ymarferol. Darperir yr holl offer a chyfarpar - ond mae croeso i chi ddod â'ch rhai eich hun os yw'n well gennych!
Cyfarfod yng nghilfan Llangar (Stamp), Cynwyd
Cod post: **LL21 0HW**, What3Words: **///siaradus.llifol.asgwrn**

**Dydd Iau 22ain Ionawr**
*Dol Llangar – Plygu gwrychoedd (Rownd 2!)*
Ymunwch â ni am ail sesiwn o blygu gwrychoedd – perffaith os na allech chi ddod ar y dyddiad cyntaf, neu os hoffech chi ddod i'r ddau. Darperir yr holl offer a chyfarpar er bod croeso i chi ddod â'ch rhai eich hun os yw'n well gennych.
Cyfarfod yng nghilfan Llangar (Stamp), Cynwyd
Cod post: **LL21 0HW**, What3Words: **///siaradus.llifol.asgwrn**

**Dydd Iau 29ain Ionawr**
*Castell Dinas Brân - Clirio Eithin*
Ymunwch â ni yng Nghastell eiconig Dinas Brân i helpu gyda rheoli cynefinoedd hanfodol ar y safle glaswelltir asidig unigryw a bregus hwn. Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar glirio eithin i gefnogi iechyd y cynefin. Darperir yr holl offer a chyfarpar.
Cyfarfod ar hyd y Crempog (y darn gwastad ar ochr y dref!)
Cod post: **LL20 8D**, What3Words: **///achubais.sboncen.sefydlodd**

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol
Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

# Chwefror

**Dydd Iau 5ed Chwefror**
*Rhaeadr y Bedol - Rheoli Cynefinoedd Cyffredinol*
Ymunwch â'r ceidwaid am ddiwrnod gwerth chweil o reoli cynefinoedd cyffredinol yn ein Safle Treftadaeth y Byd UNESCO dynodedig. Bydd eich llaw gymorth yn cefnogi gofal a chadwraeth parhaus y lle arbennig hwn. Darperir te, coffi a bisgedi!
Cyfarfod ym Maes Parcio Llantysilio Green, Llangollen
Cod post: **LL20 8BN**, What3Words: **///dofi.disgleirdeb.priodaf**

**Dydd Mercher 11eg Chwefror**
*Plas Newydd - Taro Llawryf a Mieri*
Ymunwch â ni ym Mhlas Newydd godidog i helpu gyda rheoli'r ardd trwy fynd i'r afael â llawryf a mieri. Mae rheoli'r planhigion hyn yn eu hatal rhag lledaenu'n ymosodol, mynd yn goesfach, neu gysgodi isdyfiant brodorol. Darperir offer, ynghyd â the, coffi, cacen a bisgedi!
Cyfarfod yn Ystafelloedd Te Plas Newydd, Llangollen
Cod post: **LL20 8AW**, What3Words: **///hyrwyddwr.ogof.gwybed**

**Dydd Mawrth 17eg Chwefror**
*Rheilffordd Corwen-Cynwyd - Bondocio*
Dewch i helpu i reoli'r safle hwn ar gyfer cadwraeth a hamdden, trwy gymryd rhan mewn coedlannu traddodiadol. Mae'r dasg hon yn cefnogi'r coridor coetir a'r llwybr troed/beicio, gan gynnig ffordd ymarferol o gymryd rhan mewn technegau rheoli sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.
Cyfarfod yng Nghilfan Llangar (Stamp), Cynwyd
Cod post: **LL21 0HW**, What3Words: **///siaradus.llifol.asgwrn**

**Dydd Iau 19eg Chwefror**
*Wenffrwd - Gwaith coed gwyrdd*
Ymuno â ni i ddysgu'r sgil draddodiadol o waith coed gwyrdd. Mae gwaith coed gwyrdd yn defnyddio pren newydd ei dorri, heb ei sesno, gan ei gwneud hi'n haws ei siapio gydag offer llaw traddodiadol fel bwyeill, froes, a chyllyll tynnu i greu eitemau fel llwyau, dodrefn, neu glwydi, gan ganolbwyntio ar hollti pren ar hyd graen y pren, dewch i fwynhau profiad crefft naturiol cynaliadwy.
Cyfarfod ym Maes Parcio Gwarchodfa Natur Wenffrwd
Cod post: **LL20 7UH**, What3Words: **///chwifiais.dawnsiau.cariadol**

**Dydd Iau 26ain Chwefror**
*Tynnu Hemlog y Gorllewin ym Mhen-y-Pigyn*
Dewch draw i helpu'r Ceidwaid i gael gwared ar Hemlog y Gorllewin (*Tsuga heterophylla*) yng Nghoed Pen y Pigyn i helpu i wella'r coetir llydanddail, gan ganiatáu i goed brodorol iau ddod i'r amlwg. Darperir offer a chyfarpar.
Cyfarfod ym Maes Parcio Lon Las, Corwen
Cod post: **LL21 0DN**, What3Words: **///bywydeg.darfodiad.diolchaf**

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol
Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

# Mawrth

**Dydd Iau 5ed Mawrth**
*Tynnu Hemlog Gorllewinol Pen-Y-Pigyn*
Ymunwch â'r Ceidwaid am sesiwn arall lle byddwn yn tynnu Hemlog Gorllewinol yng Nghoed Pen Y Pigyn. Darperir offer a chyfarpar.
Cyfarfod ym Maes Parcio Lon Las, Corwen
Cod post: **LL21 0DN**, What3Words: **///bywydeg.darfodiad.diolchaf**

**Dydd Iau 12fed Mawrth**
*Plygu Gwrychoedd Ysgol Dinas Brân*
Mae plygu gwrychoedd yn grefft draddodiadol, hynafol o reoli gwrychoedd sy'n adfywio'r gwrych ac yn hybu cynefin bywyd gwyllt. Dewch gyda ni i ddysgu'r sgil dreftadaeth draddodiadol o blygu gwrychoedd, ymunwch â ni i ddysgu defnyddio offer llaw traddodiadol yn ddiogel, pwysigrwydd gwrychoedd yn y dirwedd a'u manteision i fywyd gwyllt a chefn gwlad. Byddwn yn trafod llawer o agweddau ar blygu gwrychoedd a sut i blygu gwrych yn null lleol Clwyd.
Cyfarfod ym Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llangollen
Cod post: **LL20 8NB**, What3Words: **///siopa.cymar.rhuodd**

**Dydd Iau 19eg Mawrth**
*Plygu Gwrych Ysgol Dinas Brân*
Ail ddiwrnod plygu gwrych i orffen y gwrych ar hyd y llwybr troed wrth yr ysgol yn Ninas Brân a thacluso'r malurion i wneud ardal gynefin. Darperir te a bisgedi.
Cyfarfod ym Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llangollen
Cod post: **LL20 8NB**, What3Words: **///siopa.cymar.rhuodd**

**Dydd Iau 26ain Mawrth**
*Waliau Cerrig Sych Coed Neuadd Trevor*
Dewch i ymuno â'r Ceidwaid i helpu i atgyweirio'r Wal Gerrig yng Nghoed Neuadd Trevor. Dull hynafol, di-forter o adeiladu waliau trwy gydgloi cerrig a ddewiswyd yn ofalus. Nid yn unig y mae waliau cerrig yn wydn ac yn bleserus i'r llygad, maent yn cymysgu â thirweddau ac yn darparu cynefinoedd hanfodol i fywyd gwyllt. Darperir offer a chyfarpar.
***Lleoliad cyfarfod i'w gadarnhau**

## Diolch yn fawr iawn am eich gwaith caled!

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol
Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape